



ELUSEN
Gwasanaeth Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Service
CHARITY



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust

Elusen Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024-25

**Rhif Cofrestru'r Elusen
1050084**



DIOLCH A CHROESO

Mae'n bleser gennym ddod ag Adroddiad Blynyddol Elusen Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i chi ar gyfer 2024-25.

Hoffem estyn ein diolch o galon diffuant i bawb yn ein cymunedau sydd wedi cefnogi ein helusen. Diolch i'ch haelioni, roedd Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yn gallu darparu cefnogaeth amhrisiadwy i'n cleifion, ein staff a'n gwirfoddolwyr, a gwella'r ffyrdd y maen nhw'n darparu gwasanaethau hanfodol i'n cleifion.

Hoffem hefyd ddiolch i staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth. Mae'r ffordd yr ydych yn darparu safonau uchel o ofal cleifion yn gyson yn aml yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r gefnogaeth ychwanegol y gellir ei darparu i chi, diolch i'r rhoddion a'r etifeddiaethau y mae'r Elusen yn eu derbyn.

Ym mis Hydref 2024, croesawon ni ein Pennaeth Elusen cyntaf – carreg filltir allweddol ar gyfer datblygiad yr Elusen. Mae gan yr Elusen ddyfodol cyffrous o'i blaen, wrth i ni edrych i fanteisio ar gyfleoedd newydd ar gyfer codi arian ac ar gyfer cydweithio rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Elusen.

Mae uchelgais strategol newydd yr Elusen yn nodi llwybr clir ar gyfer sut y gall yr Elusen ddarparu budd ychwanegol i gleifion ledled Cymru, ac edrychwn ymlaen at weld ffrwyth y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf.

Gyda phenodiad Swyddog Codi Arian a Chyfathrebu newydd (ym mis Hydref 2025), a datblygiad Cynllun Codi Arian newydd, prif flaenoriaeth yr Elusen yw cynyddu incwm a chydnerthedd ariannol dros y tair blynedd nesaf – a fydd yn ei dro yn galluogi'r Elusen i fuddsoddi mewn prosiectau newydd, arloesol a fydd o fudd i gleifion, staff a gwirfoddolwyr ledled Cymru.

Rydym yn mawr obeithio y byddwch yn parhau i'n cefnogi. Chwiliwch am fwy o ffyrdd o wneud hynny dros y flwyddyn nesaf drwy gadw llygad [ar ein gwefan](#) ac ar y cyfryngau cymdeithasol.

Diolch yn fawr eto a gobeithio y byddwch yn mwynhau darllen adroddiad eleni.



Colin Dennis
Cadeirydd yr Ymddiriedolwr Corfforaethol



Peter Curran
Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Elusen

CYNNWYS

1.	EIN DIBEN, CYFLAWNIADAU A CHYNLLUNIAU	4
1.1	Ein Diben.....	4
1.2	Sut rydym yn helpu.....	4
1.3	Ein cynlluniau ar gyfer 2025-26 a thu hwnt.....	5
1.4	Ein Nodau Strategol.....	5
2.	EIN HEFFAITH.....	6
2.1	Diolch am eich haelioni.....	6
2.2	Astudiaeth Achos - Ymatebwyr Lles Cymunedol.....	7
2.3	Astudiaeth Achos – Tîm Pêl-rwyd De Cymru WAST.....	8
3.	EIN CYLLID.....	9
3.1	Incwm.....	9
3.2	Gwariant.....	10
3.3	Y Sefyllfa Ariannol Gyffredinol ar 31 Mawrth 2025.....	11
3.4	Polisi Cronfeydd Wrth Gefn.....	11
4.	EIN LLYWODRAETHU	12
4.1	Strwythur, Llywodraethu a Rheoli'r Elusen.....	12
4.2	Ein cyngorwyr	14
4.3	Rheoli Risg.....	15
4.4	Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Ymddiriedolaeth WAST fel Ymddiriedolwr Corfforaethol.....	17
5.	CYFRIFON BLYNYDDOL.....	18



Yn y llun: Cydweithwyr o Orsaf Ambiwylans Y Coed Duon yn rhedeg y CDF10K 2025 er budd Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru

1. EIN DIBEN, CYFLAWNIADAU A CHYNLLUNIAU

1.1 Ein Diben

Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru yw elusen swyddogol Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST). Mae gan yr elusen yr amcan elusennol canlynol:

Bydd yr Ymddiriedolwr yn dal y gronfa ymddiriedolaeth mewn ymddiriedolaeth i gymhwyso'r incwm ac yn ôl ei ddisgresiwn i'r graddau y gellir ei ganiatáu, y cyfalaf, at unrhyw ddiben neu ddibenion elusennol sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

1.2 Sut rydym yn helpu

Mae'r Elusen yn gweithio'n agos gyda WAST i sicrhau ei bod yn dyrannu cyllid i feysydd lle gall gael yr effaith fwyaf.

Nid ydym yn disodli cyllid y GIG ond yn defnyddio'r rhoddion hael a gawn i gefnogi WAST i ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau y tu hwnt i'r hyn y gall y GIG ei ddarparu.

Yn y pen draw, yn unol â'n hamcanion elusennol, mae holl wariant yr Elusen o fudd i'r cleifion a'r cymunedau y mae WAST yn eu gwasanaethu. Mae hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cefnogi **lles ein staff a'n gwirfoddolwyr**, lle mae hyn yn cael effaith amlwg ar allu ein staff i ofalu am gleifion sâl.

Yn 2024-25, parhaodd yr Elusen i ddefnyddio ei rhoddion i ddarparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i staff. Gwerthfawrogir hyn bob amser, yn enwedig drwy gyfnod heriol y gaeaf. Roedd y cymorth llesiant a ariannwyd gennym wedi cefnogi ein pobl i barhau i allu darparu gofal o'r ansawdd uchaf i'n cleifion yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn.

Prynodd yr Elusen hefyd eitemau i ddarparu **amgylchedd mwy croesawgar i griwiau**, a oedd yn cefnogi eu lles ac yn darparu adnoddau hyfforddi ychwanegol i wella ymhellach ansawdd a safonau'r gofal a ddarperir gan ein pobl.

Diolch i grant NHS Charities Together, a ddyfarnwyd yn 2023-24, lansiodd yr Elusen ei **Chronfa Chwaraeon** yn ystod 2024-25. Mae'r gronfa hon ar agor i staff a gwirfoddolwyr WAST sy'n dymuno cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol gyda chydweithwyr eraill, gan fod o fudd i'w lles meddyliol a chorfforol. Yn 2024-25, elwodd pum tîm chwaraeon o'r cyllid hwn, gyda dyfarniadau pellach i'w gwneud yn ystod 2025-26.

Mae grant pellach NHS Charities Together, a ddyfarnwyd hefyd yn ystod 2023-24, yn golygu y gall yr Elusen barhau i gefnogi **Gwasanaeth Gwirfoddol** yr Ymddiriedolaeth trwy gostau offer a staffio. Diolch i'r cyllid hael hwn, mae'r Elusen wedi ariannu costau staffio i gefnogi hyfforddiant a sefydlu Ymatebwyr Lles Cymunedol yr Ymddiriedolaeth. Mae hyn yn caniatáu i'r rolau gwirfoddol hanfodol hyn allu ymateb i alwadau priodol o fewn y gymuned, gan ddarparu arsylwadau ar y safle i glinigwyr o bell.

1.3 Ein cynlluniau ar gyfer 2025-26 a thu hwnt

Ym mis Mai 2025, cymeradwyodd yr Ymddiriedolwr Corfforaethol Amcanion Strategol yr Elusen, a fydd yn llywio ein twf a'n gweithgareddau elusennol yn y dyfodol. Gyda datblygiad diben strategol newydd ar gyfer yr Elusen, bydd yr Ymddiriedolaeth a'r Elusen yn cydweithio i sefydlu sut y gellir cyflawni hyn yn ymarferol, trwy bartneriaeth agos.

Un o'r nodau ar gyfer y flwyddyn nesaf fydd sefydlu cyfres o apeliadau codi arian cyhoeddus blaenllaw sy'n dangos yn glir sut y gall cyllid elusennol wella'r gwasanaethau statudol a chomisiynedig a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth.

Gyda phenodiad Pennaeth Elusen newydd, a Swyddog Codi Arian a Chyfathrebu, mae'r Elusen yn anelu at ddatblygu ffrydiau codi arian newydd dros y blynyddoedd nesaf. Mae Cynllun Codi Arian a Chynllun Cyflawni Elusen newydd wedi'u datblygu, sy'n dangos sut mae'r Elusen yn bwriadu cyflawni ei Hamcanion Strategol dros y tair blynedd nesaf.

Mae disgwyl i'r rhagolygon ar gyfer codi arian yn y DU yn 2025-26 barhau i fod yn heriol ac yn gystadleuol. Blaenoriaeth allweddol fydd sicrhau y gall yr Elusen gyrraedd cynulleidfaoedd newydd trwy farchnata a chyfathrebu, a dangos ei heffaith yn fwy effeithiol, trwy achos cryf dros gefnogaeth. Mae'r Elusen hefyd yn bwriadu arallgyfeirio ei ffrydiau incwm i sicrhau nad yw'n rhy ddibynol ar unrhyw un ffynhonnell ariannu.

Mae'r Elusen yn parhau i elwa o gyllid grant gan NHS Charities Together. Ym mis Hydref 2025, roedd yr Elusen yn un o 13 o elusennau ambiwlans y GIG a gefnogwyd gan Gronfa Grantiau Gwydnwch Cymunedol, a wnaed yn bosibl diolch i bartneriaeth lwyddiannus ag Omaze. Rydym yn hynod ddiolchgar i NHS Charities Together am y buddsoddiad parhaus hwn yn ein gwaith.

1.4 Ein Nodau Strategol

Ym mis Mai 2025, cymeradwyodd yr Ymddiriedolwr Corfforaethol dri amcan strategol newydd ar gyfer yr Elusen. Datblygwyd yr amcanion hyn mewn ymgynghoriad â staff a gwirfoddolwyr, a byddant yn helpu i ddiffinio diben yr Elusen. Wrth i'r Elusen barhau i dyfu, bydd yr amcanion yn cael eu defnyddio i flaenoriaethu gwariant elusennol, ac i lywio sut mae'r Elusen yn cynllunio ei gweithgareddau codi arian yn y dyfodol.

Amcan 1:

Bydd yr Elusen yn helpu WAST i gefnogi lles a datblygiad ei staff a'i gwirfoddolwyr, gan arwain at weithlu iachach, hapusach a mwy profiadol.

Amcan 2:

Bydd yr Elusen yn cefnogi WAST i feithrin gwydnwch cymunedol ledled Cymru

Amcan 3:

Bydd yr Elusen yn cefnogi WAST i ddarparu gofal cleifion gwell, trwy brosiectau ychwanegol a/neu fuddsoddiad cyfalaf, a thrwy brofi modelau cyflenwi newydd

2. EIN HEFFAITH

2.1 Diolch am eich haelioni

Bob blwyddyn, mae llawer o gleifion a'u teuluoedd yn dewis rhoi rhoddion i Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, fel ffordd o ddiolch i staff a gwirfoddolwyr yr Ymddiriedolaeth. Rydym mor ddiolchgar am eich cefnogaeth, sydd yn ei thro yn ein helpu i gefnogi ein staff, gwirfoddolwyr a chleifion ledled Cymru.

Dyma ddedoliad o rai o'r negeseuon a dderbyniwyd gennym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

"Rydych chi'n gwneud gwahaniaeth. Diolch. Mae'n anodd allan yna ond daliwch ati."

"Mae'r rhodd hon ar gyfer yr Ambiwylans Wish i ddweud diolch yn fawr iawn oddi wrth ein teulu am helpu ein tad i gyrraedd angladd ein mam. Roedd yn golygu cymaint iddo ef ac i bob un ohonom ac ni fyddai wedi bod yn bosibl heb haelioni ...y ddau wirfoddolwr

"Diolch ENFAWR iawn i chi...y parafeddygon gwych a aeth gyda ni i briodas ein merch dros y penwythnos yn yr 'Ambiwylans Wish.' Fe wnaeth eu presenoldeb ein galluogi i gael y diwrnod mwyaf rhyfeddol - rhodd llwyr."

"I'r parafeddyg gwych oddi ar ddyletswydd a oedd mor ddigynnwrf ar y trê'n wrth helpu {claf}. Beth fydden ni'n ei wneud heb bobl fel chi?"

2.2 Astudiaeth Achos - Ymatebwyr Lles Cymunedol

Mae cyflwyno Ymatebwyr Lles Cymunedol i WAST yn enghraifft o sut y gall Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru gefnogi WAST i gyflawni prosiectau arloesol sy'n cefnogi gofal cleifion brys. Diolch i gyllid gan Grant Ambiwylans NHS Charities Together, mae WAST wedi recriwtio, hyfforddi a chefnogi mwy na 300 o wirfoddolwyr newydd, gan ddod â chymorth tosturiol, cymunedol yn uniongyrchol i gleifion ledled Cymru.

Mae gwirfoddolwyr Ymatebwyr Lles Cymunedol wedi'u hyfforddi i fynychu galwadau 999 priodol yn eu cymunedau lleol. Maent yn cynnal arsylwadau cychwynnol ac yn trosglwyddo'r wybodaeth hon yn uniongyrchol i glinigwyr yn ein canolfannau cyswllt. Mae'r asesiad uniongyrchol hwn yn helpu clinigwyr i benderfynu ar y llwybr gofal mwyaf diogel a phriodol ar gyfer pob claf, boed hynny'n anfon ambiwlans, trefnu apwyntiad dilyn i fyny gyda meddyg teulu, neu ddarparu cyngor clinigol amgen.

Mae Grant Gwasanaethau Ambiwylans NHS Charities Together wedi ariannu'r canlynol:

- Recriwtio pedwar Swyddog Cymorth ymroddedig sy'n hyfforddi gwirfoddolwyr, yn darparu cymorth gweithredol o ddydd i ddydd, ac yn gweithredu fel un pwynt cyswllt
- Prynu offer arsylwi hanfodol, gwisgoedd ac adnoddau
- Datblygu'r systemau a'r seilwaith sydd eu hangen i anfon gwirfoddolwyr yn ddiogel i fynychu galwadau gofal brys

Heb gefnogaeth Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru a'r cyllid grant y gall ei gael, ni allai'r prosiect arloesol hwn a'r budd cymunedol y mae'n ei ddarparu fodoli.



Mae Ymatebwyr Lles Cymunedol eisoes wedi cefnogi miloedd o alwadau ledled Cymru, gan gynnig tawelwch meddwl i gleifion a mewnwleidiad clinigol gwerthfawr i dimau ystafell reoli. Mae pob rhyngweithiad yn dangos sut y gall gofal brys dan arweiniad gwirfoddolwyr gryfhau capasiti'r system, lleihau pwysau ar griwiau rheng flaen, a gwella profiad cleifion.

I glinigwyr, mae presenoldeb gwirfoddolwr hyfforddedig ar y safle yn darparu gwybodaeth amser real sy'n gwella gwneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod ambiwlansys yn cael eu targedu at y cleifion sydd eu hangen fwyaf.

“Yr hyn y mae'r gwirfoddolwyr yn ei wneud yw ein helpu ni i gyrraedd y datrysiad mwyaf diogel. Mae'n cael effaith sylweddol ar ba mor ddiogel y gallwn ni ofalu am gleifion ac mae'n gwneud gwahaniaeth i'r ffordd orau y gallwn ni gefnogi cleifion sydd gartref ... ac sy'n poeni am eu hiechyd.” Liam Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio

Mae rhaglen Ymatebwyr Lles Cymunedol yn dangos yr effaith wirioneddol y gall Elusen Gwasanaeth Ambiwylans Cymru ei chael o fewn yr Ymddiriedolaeth drwy helpu i brofi a pheilota model sy'n meithrin gwydnwch, yn cefnogi cleifion yn nes at adref, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at uchelgeisiau strategol yr Ymddiriedolaeth. Mae'n enghraifft glir o sut y gall yr Elusen gefnogi'r Ymddiriedolaeth i greu gwelliannau hirdymor ac ystyrlon i'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

2.3 Astudiaeth Achos – Tîm Pêl-rwyd De Cymru WAST

Mae Tîm Pêl-rwyd De Cymru WAST yn dîm chwaraeon newydd sbon sy'n rhoi cyfle i staff ddatblygu lles, gwaith tîm a chysylltiad ar draws Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Cyn cefnogaeth gan Elusen Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, nid oedd y tîm yn bodoli. Roedd yr angen am y clwb a phobl eisiau cymryd rhan yno erioed, ond roedd ymdrechion i gael tîm ar waith bob amser wedi methu. Roedd gormod o rwystrau, gyda'r costau cychwyn cychwynnol yn rhwystr mwyaf oll.

Diolch i gefnogaeth yr Elusen, a chyllid gan NHS Charities Together, llwyddodd sylfaenwyr y tîm i wireddu eu gweledigaeth a dod â'r tîm pêl-rwyd yn fyw o'r diwedd. Roedd cefnogaeth gan yr Elusen yn talu am git, offer hyfforddi, llogi cwrt a chostau gemau, gan sicrhau nad oedd cyllid yn rhwystr i unrhyw un a oedd am gymryd rhan.

Y canlyniad yw tîm sydd bellach yn dwyn ynghyd gydweithwyr o bob cyfarwyddiaeth ac yn darparu lle i staff allu cadw'n heini, cymdeithasu, ac ymlacio o bwysau rolau rheng flaen a chymorth. Mae chwaraewyr yn disgrifio'r sesiynau pêl-rwyd fel dihangfa wythnosol ar gyfer lles meddyliol a chorfforol.

“Mae Pêl-rwyd WAST wedi chwarae rhan enfawr yn gwella fy iechyd meddwl a chorfforol. Mae bod yn rhan o dîm cefnogol wedi codi fy hyder ac wedi fy helpu i feithrin perthnasoedd y tu allan i'm maes gwaith arferol. Heb gefnogaeth yr elusen, ni fyddai gennyf fynediad at ofod mor gadarnhaol a grymusol.”

Ers ffurfio, mae'r tîm eisoes wedi ennill tair o'i bedair gêm gyntaf, gan roi hwb i forâl yn enwedig i'r rhai sy'n newydd i'r gêm. Mae chwaraewyr yn ei ddisgrifio fel yn union yr hyn sydd ei angen arnyn nhw ar ôl wythnos hir. Ond y fuddugoliaeth wirioneddol yw'r effaith pendant y mae wedi'i chael ar les staff.

“Mae Pêl-rwyd WAST wedi gwella fy iechyd corfforol a meddyliol yn fawr. Mae wedi gwneud i WAST ddod ynghyd o bob ardal ac rydw i wedi gwneud ffrindiau newydd. Mae'r gefnogaeth gan yr Elusen wedi gwneud gwahaniaeth enfawr.”

Mae Elusen Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi gallu cael gwared ar y rhwystrau a oedd yn hanesyddol wedi atal tîm pêl-rwyd rhag cychwyn ar eu gwaith. Drwy gefnogaeth yr Elusen, gall pob aelod o staff, gan gynnwys gweithwyr sifftiau sy'n aml yn cael eu heithrio rhag cymryd rhan mewn chwaraeon tîm, fwynhau'r manteision corfforol, meddyliol a chymdeithasol y mae pêl-rwyd yn eu cynnig. Hefyd, drwy ddarparu cyllid ar gyfer cit newydd, mae'r Elusen wedi helpu i roi hunaniaeth i'r tîm sydd, yn ei dro, wedi helpu i greu cymuned lle mae cydweithwyr yn cefnogi ei gilydd ar y cwrt ac oddi arno.




3. EIN CYLLID

3.1 Incwm

Cedwir yr holl incwm a dderbynnir naill ai mewn cronfeydd anghyfyngedig, dynodedig neu gyfyngedig, yn dibynnu ar amodau (os o gwbl) y rhodd, y gymynrodd, neu'r grant.

Yn ystod 2024-25, roedd 100% o incwm gwirfoddol yr elusen (rhoddion a chymynroddion) yn anghyfyngedig. Mae'r Elusen yn ddiolchgar am yr holl roddion a dderbyniwyd, sy'n ein galluogi i gyflwyno gweithgareddau a fydd o fudd i staff, gwirfoddolwyr a chleifion. Lle bynnag y bo modd, bydd yr Elusen bob amser yn annog rhoddwyr i wneud rhoddion anghyfyngedig, gan fod hyn yn caniatáu i'r Elusen ddefnyddio'r cronfeydd hynny lle mae eu hangen fwyaf ar y pryd. Sylwch fod incwm grant yr elusen wedi'i gyfyngu at ddibenion y set honno o fewn ei cheisiadau grant.

Mae'r siart isod yn dangos ein prif ffynonellau incwm yn 2024-25, sef cyfanswm o £66,838:



Rhoddion £14,231 (2023/24 £19,435)

Mae 21% o incwm yr elusen wedi dod gan gleifion a'u teuluoedd sydd eisiau dangos gwerthfawrogiad am y gofal a'r gefnogaeth y maen nhw wedi'u derbyn gan ein pobl.

Rydym yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar am yr holl gefnogaeth y mae'r cyhoedd a'r staff wedi'i rhoi i ni i'n helpu i wireddu ein nodau.

Cymynroddion £30,000 (2023/24 £164,886)

Derbyniodd yr elusen un rhodd yn ystod 2024-25. Mae Elusen Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn ddiolchgar am bob cymynrodd ac yn ddiolchgar i'r rhai sy'n meddwl amdanom wrth wneud eu hewyllys.

Incwm Buddsoddi £22,607 (2023/24 £10,799)

Daw'r incwm buddsoddi hwn ar ffurf difidendau a llog o fuddsoddiadau a balansau arian parod a ddelir gan yr elusen.

3.2 Gwariant


Yn ystod 2024-25 mae'r elusen wedi parhau i gefnogi ystod eang o weithgareddau elusennol ac iechyd ar draws WAST. Gwneir gwariant elusennol gan roi ystyriaeth i fudd cyhoeddus a chynhelir proses o adolygu a gwerthuso ar geisiadau am arian i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion yr elusen.

Mae enghreifftiau o brosiectau a ariannwyd gan yr Elusen yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y canlynol:

- Costau prosiect a staffio i helpu i recriwtio a hyfforddi Ymatebwyr Lles Cymunedol fel rhan o Wasanaeth Gwirfoddoli'r Ymddiriedolaeth. Wedi'i ariannu gan NHS Charities Together, mae'r prosiect hwn yn helpu i gefnogi gwneud penderfyniadau clinigol gwell o bell trwy arsylwadau ar y safle gan wirfoddolwyr.
- Gweithgareddau lles ac ymwybyddiaeth ofalgar i'n staff a'n gwirfoddolwyr, a chefnogaeth lles ymarferol i gydweithwyr.
- Lansio Cronfa Chwaraeon yr Elusen, gyda chefnogaeth NHS Charities Together. Yn 2024-25 dyfarnodd yr Elusen gyllid i bump o dimau chwaraeon WAST, i helpu i gefnogi cydweithwyr gyda'u lles corfforol a meddyliol.
- Bwrsariaethau hyfforddi i ddau aelod o staff, gan eu galluogi i barhau â'u datblygiad proffesiynol y tu hwnt i'r hyn sy'n bosibl trwy gyllid y GIG, ac felly'n helpu i ddarparu gofal gwell i gleifion.

Dadansoddiad o wariant ar weithgareddau elusennol

Yn 2024-25 roedd cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol yn £228,179 (2023/24 £105,039). Roedd y categorïau gwariant fel a ganlyn:



Codi Arian

Cyfanswm y swm a wariwyd ar godi arian ar gyfer 2024-25 oedd £18,338, ac mae £3,129 ohono yn gostau cymorth.

Costau rheoli a gweinyddu

Cyfanswm y costau rheoli a gweinyddu ar gyfer 2024-25 oedd £42,068. Mae hyn yn cynrychioli 4.4% o falansau'r gronfa agoriadol a ddelir ar 1 Ebrill 2024.

Buddsoddiadau a pherfformiad

Mae'r elusen yn dal unedau buddsoddi gyda CCLA Good Investment Rheolir y buddsoddiadau hyn gan CCLA. Ni wnaed unrhyw bryniannau ychwanegol yn ystod 2024-25. Yn ystod 2024-25 cynyddodd gwerth marchnad y buddsoddiadau gan £5,567.

3.3 Y Sefyllfa Ariannol Gyffredinol ar 31 Mawrth 2025

Gwerth yr Elusen ar 31 Mawrth 2025 oedd £761,640. Mae hyn yn ostyngiad o £185,246 ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r gostyngiad hwn yng ngwerth yr Elusen yn bennaf oherwydd y gwariant cynlluniedig ar grantiau cyfyngedig a dderbyniwyd mewn blynyddoedd blaenorol, gan gynnwys grantiau mawr gan NHS Charities Together.

3.4 Polisi Cronfeydd Wrth Gefn

Nid oedd unrhyw ymrwymadau rheolaidd yn 2024-25, heblaw am y ffi reoli o £10,000 (ac yn yr un modd yn 2025-26) yn erbyn balansau cronfeydd elusennol anghyfyngedig. Noder bod ymrwymiad yr Elusen i fuddsoddi mewn Pennaeth Elusen a Swyddog Codi Arian wedi'i ddyrannu i gronfa ddynodedig i sicrhau bod y costau hyn yn cael eu talu am y cyfnodau tymor penodol o 2 flynedd y mae'r swyddi wedi'u dyfarnu ar eu cyfer.

Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol o'r farn y dylid cymhwyso rhoddion o fewn cyfnod rhesymol o'u derbyn, cyn belled nad oes unrhyw gynlluniau tymor hir cymeradwy sy'n gofyn am Gronni Balansau, a bod gwariant yn cynrychioli defnydd priodol o arian.

4. EIN LLYWODRAETHU

4.1 Strwythur, Llywodraethu a Rheoli'r Elusen

Ymddiriedolwr Corfforaethol

Mae gan yr elusen unig Ymddiriedolwr Corfforaethol sef Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru. Yr Ymddiriedolaeth fel yr unig Ymddiriedolwr Corfforaethol sy'n gyfrifol am reoli a defnyddio arian a ddelir ar ymddiriedolaeth.

Penodir Cadeirydd a Chyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd yr Ymddiriedolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros lechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, a phenodir y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â Rheolau Sefydlog yr Ymddiriedolaeth.

Darperir cyfnod cynefino a hyfforddiant priodol i aelodau newydd o Fwrdd yr Ymddiriedolaeth. Mae dogfennau ymglyfarwyddo a ddarperir ar gyfer aelodau newydd yn cynnwys adroddiadau blynyddol a datganiadau ariannol y flwyddyn flaenorol, a gwybodaeth berthnasol am yr elusen. Mae aelodaeth Bwrdd yr Ymddiriedolaeth rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

Nid yw'r elusen yn gwneud unrhyw daliad am daliad cydnabyddiaeth, ac nid yw ychwaith yn ad-dalu treuliau i'r unigolion uchod am weithgareddau a gyflawnwyd yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwr Corfforaethol.

Mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr ddatgelu'r holl fuddiannau perthnasol, eu cofrestru gyda'r Ymddiriedolaeth a thynnu'n ôl o benderfyniadau pan fo gwrthdaro yn codi. Cyfeirir at unrhyw drafodion parti cysylltiedig yn y cyfrifon.

Elusen Gysylltiedig

Mae cofrestrriad yr Elusen yn cynnwys elusen gysylltiedig, Cronfa Gyffredinol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, gyda'r rhif cofrestru 1050084-1.

Adrodd ar Ddigwyddiadau Difrifol

Mae'r Comisiwn Elusennau yn ei gwneud yn ofynnol i bob elusen adrodd am unrhyw ddigwyddiadau difrifol, gan gynnwys unrhyw ddigwyddiadau niweidiol a allai achosi niwed sylweddol i fuddiolwyr, gweithrediadau, enw da neu gyllid elusen. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau o'r fath y dylid eu hadrodd yn ystod 2024-25.

Y Pwyllgor Elusen

Cyfarfu'r Pwyllgor Elusen bedair gwaith yn ystod 2024-25 ac adroddodd i'r Ymddiriedolwr Corfforaethol ar bob achlysur. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn dirprwyo i'r Pwyllgor Elusen i:

Datblygu Strategol a Chyflawni

- Goruchwylio a chyfrannu at ddatblygiad strategaeth hirdymor yr Elusen
- Derbynnu sicrwydd ynghylch gweithredu'r strategaeth.

Codi arian

- Cymeradwyo ac adolygu'n rheolaidd y cynllun codi arian ar gyfer yr elusen, gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth a chanllawiau'r Comisiwn Elusennau, a'r holl ofynion rheoleiddio

perthnasol eraill.

- Derbyn sicrwydd ynghylch gweithredu'r cynllun codi arian.
- Sicrhau bod systemau, prosesau a chyfathrebu ar waith ynghylch codi arian, ymgysylltu â staff ac ymrwymadau ariannu.

Cronfeydd Elusennol

- Sicrhau bod rheolaeth cronfeydd elusennol yn cael ei chynnal o fewn telerau ei Ddatganiad Ymddiriedaeth a deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys unrhyw reoliadau gan y Comisiwn Elusennau.
- Bod yn ymwybodol o'r canllawiau ar fudd cyhoeddus a'u hystyried.
- Cefnogi targedau incwm a chyllidebau gwariant i'w cymeradwyo gan yr Ymddiriedolwr Corfforaethol.
- Sicrhau bod systemau a phrosesau ar waith i dderbyn, cyfrif am, defnyddio a buddsoddi cronfeydd elusennol, ac adolygu datganiadau incwm a gwariant cyfnodol.
- Derbyn sicrwydd gan unrhyw baneli neu is-bwyllgorau a sefydlir gan y Pwyllgor ynghylch defnyddio cronfeydd elusennol yn unol â'u cylch gorchwyl er mwyn sicrhau bod unrhyw ddefnydd o'r fath yn unol â nodau a dibenion y gronfa elusennol neu'r rhodd.
- Ystyried ac awdurdodi gwariant sydd â gwerth dros £5,000, yn amodol ar argymhelliad gan y Tîm Arwain Gweithredol.
- Derbyn a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol, y ffurflen flynyddol a'r cyfrifon ariannol, ac ystyried yr adroddiad blynyddol gan yr archwilwyr cyn ei gyflwyno i'r Ymddiriedolwr Corfforaethol i'w gymeradwyo.

Buddsoddi

- Ystyried a chytuno ar strategaeth fuddsoddi ar gyfer buddsoddi cronfeydd nad oes eu hangen ar unwaith i'w defnyddio'n ddiogel, gan ystyried unrhyw ystyriaethau moesegol priodol.
- Ystyried penodi cynghorwyr buddsoddi allanol a rheolwyr cronfeydd gweithredol.
- Adolygu perfformiad buddsoddiadau yn rheolaidd (gyda'r cynghorwyr buddsoddi allanol lle cânt eu penodi) i sicrhau'r enillion gorau posibl o gronfeydd dros ben.

Polisi a Risg

- Cymeradwyo polisiâu priodol a monitro'r prif risgiau i'r elusen.

Aelodaeth y Pwyllgor Elusen

Roedd aelodaeth y Pwyllgor Elusen rhwng 1 Ebrill 1 a 31 Mawrth 2024 fel a ganlyn:

Aelodau'r Pwyllgor

(o 01 Ebrill 2024-31 Rhagfyr 2024)

Ceri Jackson	Aelod o'r Pwyllgor (Cadeirydd o 05 Mai 2022-31 Rhagfyr 2024)
Bethan Evans	Aelod o'r Pwyllgor
Hannah Rowan	Aelod o'r Pwyllgor

Aelodau'r Pwyllgor

(o 01 Ionawr 2025-31 Mawrth 2025)

Peter Curran	Aelod o'r Pwyllgor (Cadeirydd o 01 Ionawr 2025)
Ceri Jackson	Aelod o'r Pwyllgor
Hannah Rowan	Aelod o'r Pwyllgor

Mynychwyr Rhagnodedig ar gyfer y Pwyllgor

Chris Turley	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol (Trysorydd)
Lee Brooks	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
Andy Swinburn	Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth
Estelle Hitchon	Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu
Trish Mills	Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd
Liz Rogers	Is-gyfarwyddwr Pobl a Diwylliant
Julie Boalch	Cadeirydd y Panel Cynigion
Jo Kelso	Cadeirydd y Panel Bwrsariaethau
David Hopkins	Pennaeth yr Elusen (o 7 Hydref 2024)
Damon Turner	Partner Undeb Llafur
Hugh Parry	Partner Undeb Llafur
Marcus Viggers	Partner Undeb Llafur

Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn adolygu aelodaeth y Pwyllgor Elusen fel rhan o'i adolygiad effeithiolrwydd blynyddol.

Ar hyn o bryd nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu system lle mae rheolwyr cronfeydd yn cael eu dirprwyo i'r cyfrifoldeb am weinyddu rhai cronfeydd. Yn lle hynny, sefydlodd y Pwyllgor Elusen y Panel Cynigion a'r Panel Bwrsariaethau ar gyfer caniatáu ceisiadau i ddefnyddio cronfeydd elusennol. Mae'r Paneli yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ym mhob cyfarfod. Mae canllawiau yn eu lle i gynorthwyo'r Paneli i ddefnyddio arian.

Nod yr elusen yw bod yr holl wariant er budd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac felly er budd y cyhoedd. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol, y Pwyllgor Elusen a'r Paneli yn ymwybodol o'u dyletswyddau mewn perthynas â budd y cyhoedd.

Cyfeiriad cofrestredig

Cyfeiriad cofrestredig yr Elusen yw Tŷ Elwy, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, Sir Ddinbych, LL17 0LJ

4.2 Ein cyngorwyr

Bancwyr

Mae'r elusen wedi cadw gwasanaethau bancio yn ystod y flwyddyn Barclays Bank plc, Canolfan Bancio Corfforaethol, 70 Kingsway, Abertawe SA1 5JB

Archwilwyr Allanol

Archwilwyr yr elusen yn ystod y flwyddyn oedd Archwilio Cymru, 1 Capital Quarter, Tyndall Street, Caerdydd, CF10 4BZ.

Rheolwr Buddsoddi

CCLA Good Investment, One Angel Lane, Llundain, EC4R 3AB

4.3 Rheoli Risg

Mae'r Elusen wedi ymrwymo i reoli risg yn weithredol ac yn effeithiol fel elfen allweddol wrth gyflawni ei hamcanion busnes a strategol yn llwyddiannus. Mae rheoli risg yn gyfrifoldeb allweddol, ar y cyd i'r Pwyllgor Elusen ac mae'n rhan annatod o'r trefniadau a'r gweithgareddau llywodraethu i gefnogi gwneud penderfyniadau, ac i gryfhau a chael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad ei uchelgeisiau yn y dyfodol.

Mae gwaith wedi'i wneud drwy gydol 2024-25 i symud ymlaen â datblygiad a rheolaeth cyfres o risgiau y mae'r Elusen yn eu hwynebu. Mae Cofrestr Risg Elusen wedi'i sefydlu ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor Elusen ym mhob cyfarfod. Bydd ffocws cynyddol ar nodi a mynegi risgiau yn parhau wrth i'r cyfeiriad strategol esblygu.

Proffil Risg

Mae proffil risg yr Elusen yn destun craffu gan uwch reolwyr a phwyllgorau. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, roedd un risg agored yn ymwneud â chymhwyso grantiau ac un risg gaeedig yn ymwneud â chyfrifon Elusennau. Roedd gwaith yn parhau i ddatblygu risgiau yn ymwneud â themâu gan gynnwys cydymffurfio â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol, llywodraethu a rheoli cronfeydd a thargedau codi arian. Mae'r proffil hwn yn ychwanegol at ddau risg allweddol sy'n ymwneud â rheolaethau ariannol a buddsoddiadau, y mae eu manylion wedi'u nodi isod.

Risg rheolaethau ariannol

Mae'r rheolaethau ariannol sy'n gweithredu mewn perthynas â'r cronfeydd elusennol yr un fath â'r rhai sy'n berthnasol i'r Ymddiriedolaeth ac fe'u pennir yn y Rheolau Sefydlog a'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog. Diben y rheolaethau hyn yw sicrhau nad yw'r gronfa elusennol yn agored i unrhyw risgiau ariannol mawr. Mae'r rheolaethau sydd ar waith yn destun adolygiad parhaus gan y Gyfarwyddiaeth Cyllid ac yn destun adolygiad archwilio allanol blynyddol.

Cyflwynir adroddiadau ariannol sy'n dangos incwm a gwariant ynghyd â dadansoddiad o newidiadau ariannol sylweddol i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Elusen. Mae'r Ymddiriedolwr Corfforaethol yn cymeradwyo cyfrifon blynyddol ac adroddiad blynyddol yr Elusen bob blwyddyn cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau.

Mae Archwilio Cymru yn cynnal yr archwiliad allanol blynyddol o gyfrifon elusennau. O ystyried maint yr Elusen, cynhelir hyn fel arfer fel archwiliad annibynnol, gydag archwiliad llawn yn cael ei gynnal o bryd i'w gilydd. Cwblhawyd archwiliad llawn yn 2021-22 ac ar ôl hynny dychwelodd y broses i archwiliadau annibynnol yn y blynyddoedd ariannol canlynol.

Risg buddsoddi

Mae'r risg yn ymwneud â'r ansicrwydd yn y marchnadoedd buddsoddi ac anwadalrwydd y cynnyrch. Caiff hyn ei liniaru drwy fuddsoddi mewn portffolio o fuddsoddiadau drwy gyngor proffesiynol rheolwyr buddsoddi. Ein rheolwyr buddsoddi yw CCLA ac mae diweddariad ar y buddsoddiad wedi'i gynnwys yn yr adroddiadau cyllid a ystyrir ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Elusen gyda monitro misol o'r buddsoddiad gan y Tîm Cyllid.

Polisi buddsoddi'r Elusen yw dal isafswm o 20% mewn cyfrifon banc sy'n ennill llog ac uchafswm o 50% mewn incwm sefydlog neu gronfeydd ecwiti. Mae hyn er mwyn cael yr adenillion mwyaf ar fuddsoddiad gyda'r risg lleiaf posibl i'r cronfeydd.

Nid oes gan yr Elusen bolisi ar hyn o bryd o roi grantiau i gyrff heblaw'r Ymddiriedolaeth ac ni wnaed yr un yn ystod blwyddyn ariannol 2024-25. Rhoddodd adroddiad i'r Pwyllgor Elusen yn 2023 sicrwydd i'r Ymddiriedolwr Corfforaethol ynghylch y buddsoddiad moesegol.

4.4 Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Ymddiriedolaeth WAST fel Ymddiriedolwr Corfforaethol

Roedd yr aelodau pleidleisio (rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025) yn cynnwys:

- Colin Dennis, Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth
- Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Anweithredol o 11 Tachwedd 2024
- Jayne Beeslee, Cyfarwyddwr Anweithredol o 19 Awst 2024
- Peter Curran, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Bethan Evans, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Yr Athro Hayley Hutchings, Cyfarwyddwr Anweithredol o 11 Tachwedd 2024
- Ceri Jackson, Is-gadeirydd dros dro hyd at 30 Mehefin 2024, ac Is-gadeirydd o 01 Gorffennaf 2024
- Hannah Rowan, Cyfarwyddwr Anweithredol
- Jason Killens, Prif Swyddog Gweithredol yr Ymddiriedolaeth
- Lee Brooks, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
- Rachel Marsh, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad
- Christopher Turley, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol
- Andy Swinburn, Cyfarwyddwr Gweithredol Parafeddygaeth
- Liam Williams, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio
- Joga Singh, Cyfarwyddwr Anweithredol tan 31 Awst 2024
- Yr Athro Kevin Davies, Cyfarwyddwr Anweithredol tan 30 Medi 2024

Roedd aelodau heb bleidlais (rhwng 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025) yn cynnwys:

- Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu
- Carl Kneeshaw, Cyfarwyddwr Pobl o 01 Tachwedd 2024
- Angela Lewis, Cyfarwyddwr Pobl a Diwylliant hyd at 31 Hydref 2024, Cyfarwyddwr Newid Diwylliant o 01 Tachwedd 2024
- Jonny Sammut, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol
- Trish Mills, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd
- Hugh Parry, Cynrychiolydd Undeb Llafur
- Damon Turner, Cynrychiolydd Undeb Llafur

5. CYFRIFON BLYNYDDOL